OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 827

# Rheoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017

## RHAN 2: CYFANSODDIAD

### Aelodaeth

**3.** Bydd y Pwyllgor yn cynnwys—

(a) cadeirydd ("y Cadeirydd") (gweler rheoliad 4); a

(b) hyd at 14 o aelodau eraill ("aelodau'r Pwyllgor") (gweler rheoliad 5).

### Y Cadeirydd

**4.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi'r Cadeirydd, yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus(**1**), am ba bynnag gyfnod a bennir mewn offeryn penodi.

(2) Rhaid nodi telerau penodi'r Cadeirydd yn yr offeryn penodi.

(3) Caiff y Cadeirydd ymddiswyddo drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu penodiad y Cadeirydd cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr offeryn penodi os ydynt wedi eu bodloni—

(a) nad yw'r Cadeirydd wedi cydymffurfio â thelerau'r penodiad; neu

(b) bod y Cadeirydd fel arall yn analluog neu'n anaddas i barhau i fod yn Gadeirydd.

### Aelodau'r Pwyllgor

**5.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi hyd at 14 o aelodau Pwyllgor am ba bynnag gyfnod a bennir mewn offeryn penodi.

(2) Rhaid i bob aelod o'r Pwyllgor fod naill ai—

(a) yn arbenigwr ar faterion y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn berthnasol; neu

(b) yn gynrychiolydd enwebedig sefydliad rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

(3) Rhaid i unrhyw benodiad yn unol â pharagraff (2)(a) gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus(**2**).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r ddau gategori a bennir ym mharagraff (2).

(5) Rhaid nodi telerau penodi aelod o'r Pwyllgor yn yr offeryn penodi.

---

(**1**) Cyhoeddwyd y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2016 gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, ac mae'n nodi'r fframwaith rheoleiddio gorfodol ar gyfer gwneud penodiadau cyhoeddus.

(**2**) Gweler uchod.

(6) Caiff aelod o'r Pwyllgor ymddiswyddo drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu penodiad aelod o'r Pwyllgor cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr offeryn penodi os ydynt wedi eu bodloni—

(a) nad yw'r aelod o'r Pwyllgor wedi cydymffurfio â thelerau'r penodiad; neu

(b) bod yr aelod o'r Pwyllgor fel arall yn analluog neu'n anaddas i barhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor.

**Taliadau cydnabyddiaeth**

**6.** Caiff Gweinidogion Cymru dalu taliadau cydnabyddiaeth a lwfansau i'r Cadeirydd a thalu lwfansau i aelodau'r Pwyllgor.

**Talu lwfansau i aelodau is-bwyllgor**

**7.** Caiff Gweinidogion Cymru dalu unrhyw lwfansau a bennir gan y Cadeirydd ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru i unrhyw berson a benodir i is-bwyllgor (gweler rheoliad 14).